OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1104

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007

## RHAN 1

CYFFREDINOL A CHYFLWYNO

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.